Datganiad Ystadegol: 47/2026

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mehefin 2026

# Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2026 Pennod 4: sector coedwigoedd cystadleuol a chynaliadwy

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron WG54762

ISBN Digidol 978-1-83745-698-7

Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2026
Pennod 4: sector coedwigoedd cystadleuol a chynaliadwy

Datganiad Ystadegol y Llywodraeth rhif 47/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/dangosyddion-coetiroedd-i-gymru

Arweiniwyd y gwaith o gynhyrchu'r dangosyddion hyn gan Ymchwil Coedwigaeth, ar ran Llywodraeth Cymru. Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Coed a Phriddoedd
Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

PolisiCoedwigaeth.ForestryPolicy@gov.wales

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau ........ 2

Rhestr o ffigurau ........ 3

Cyflwyniad ........ 4

Tueddiadau ........ 5

Deilliant 12: mwy o bren yn cael ei dyfu, ei brosesu a'i ddefnyddio yng Nghymru ..... 7

Dangosydd 12a: cynhyrchu pren ........ 7

Dangosydd 12b: rhagolygon am argaeledd pren ........ 9

Data ychwanegol a chyd-destun ........ 12

Cymarebau cynaeafu/argaeledd ........ 12

Mewnforion, allforion, a defnydd ymddangosiadol ........ 15

Deilliant 13: y sector coedwigoedd yn parhau yn gystadleuol a chynaliadwy, gan gefnogi economi Cymru ........ 18

Dangosydd 13a: gwerth gros ychwanegol y sector coedwigaeth ........ 18

Dangosydd 13b: cyfrifon busnes yn y sector coedwigaeth ........ 21

Deilliant 14: mwy o ddefnydd o bren fel adnodd adnewyddadwy allweddol ........ 23

Dangosydd 14: defnyddio pren mewn adeiladwaith - wrthi'n cael ei ddatblygu .... 23

Data ychwanegol a chyd-destun ........ 25

Ailgylchu pren ........ 25

Deilliant 15: gweithlu ffyniannus gyda sgiliau yn y sector coedwigoedd a choetiroedd a all addasu i newid ........ 27

Dangosydd 15a: nifer gweithwyr yn y sector coedwigoedd – wrthi'n cael ei ddatblygu ........ 27

Dangosydd 15b: sgiliau a galluedd y sector – wrthi'n cael ei ddatblygu ........ 29

Data ychwanegol a chyd-destun ........ 32

Damweiniau yn y sector coedwigoedd ........ 32

## Rhestr o dablau

Tabl 1: disgrifiad o ddadansoddiad tueddiadau ar gyfer dangosyddion Coetiroedd i Gymru ........ 5
Tabl 2: tueddiadau ar gyfer dangosyddion Coetiroedd i Gymru ........ 6
Tabl 3: cymarebau cynaeafu/argaeledd ........ 14
Tabl 4: cynhyrchu, mewnforion, allforion a defnydd ymddangosiadol, DU, 1994-2024 ........ 15
Tabl 5: rhagamcan o’r galw am lafur yn y sector coedwigoedd, Cymru, 2019-2030 30

# Rhestr o ffigurau


Ffigwr 1: cynhyrchu pren, Cymru, 1976-2024 ........ 8

Ffigwr 2: rhagolwg argaeledd pren meddal 50-mlynedd, Cymru, 2027 i 2076 ........ 10

Ffigwr 3: rhagolwg argaeledd pren caled 50-mlynedd, Cymru, 2013 i 2061 ........ 11

Ffigwr 4: argaeledd pren vs cynhyrchu, Cymru, 2000-2024 ........ 13

Ffigwr 5: canran defnydd ymddangosiadol pren o fewnforion, DU, 1994-2024 ........ 17

Ffigwr 6: Gwerth Gros Ychwanegol gan y sector coedwigoedd yng Nghymru (1998 = 1.0) ........ 19

Ffigwr 7: Gwerth Gros Ychwanegol gan y sector coedwigoedd yng Nghymru o gymharu â'r DU (1998 = 1.0) ........ 20

Ffigwr 8: cyfrifon busnes fesul diwydiant, Cymru, 2010-2025 ........ 22

Ffigwr 9: diagram Sankey yn crynhoi llif y pren a gynhyrchwyd yng Nghymru, 2023 ...

Ffigwr 10: ailgylchu pren DU, fesul cenedl, 2019-2025 ........ 26

Ffigwr 11: gweithwyr yn y sector coedwigoedd fesul diwydiant, Cymru, 2015-2024 28

Ffigwr 12: myfyrwyr addysg uwch coedwigaeth a choedyddiaeth yn ôl math o radd a blwyddyn academaidd, Cymru a Lloegr, 2007-2016........

Ffigwr 13: cyfanswm nifer y damweiniau yr adroddwyd amdanynt am bob 1,000 o weithwyr, fesul diwydiant, Prydain Fawr, 2004/05 i 2023/24........ 33

## Cyflwyniad

Mae pennod 4 strategaeth Coedwigoedd i Gymru (CiG) yn gosod allan y deilliannau sy'n ymwneud â'r diwydiant coedwigaeth yng Nghymru. Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren: Datblygu'r diwydiant pren yng Ngymru a gyhoeddwyd ar 22 Gorffennaf 2026, yn adeiladu ymhellach ar y weledigaeth am sector coedwigoedd cynaliadwy a chystadleuol sy'n cefnogi economi Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac sy'n cyfrannu at leihau ôl troed carbon Cymru trwy wneud mwy o ddefnydd o bren mewn adeiladwaith a llai o ddibyniaeth ar bren sy'n cael ei fewnforio. Mae deilliannau strategaeth CiG sydd yn y bennod hon a'r dangosyddion cysylltiedig wedi eu gosod allan isod.

**Deilliant 12: mwy o bren yn cael ei dyfu, ei brosesu a'i ddefnyddio yng Nghymru**

Dangosydd 12a: cynhyrchu pren

Dangosydd 12b: rhagolygon am argaeledd pren

Data ychwanegol a chyd-destun:

- Cymarebau cynaeafu/argaeledd
- Defnydd o bren o fewnforion a'n hyn a geir yn y wlad hon

**Deilliant 13: y sector coedwigoedd yn parhau yn gystadleuol a chynaliadwy, gan gefnogi economi Cymru**

Dangosydd 13a: gwerth gros ychwanegol y sector coedwigaeth

Dangosydd 13b: cyfrifon busnes

**Deilliant 14: mwy o ddefnydd o bren fel adnodd adnewyddadwy allweddol**

Dangosydd 14: defnyddio pren mewn adeiladwaith - wrthi'n cael ei ddatblygu

Data ychwanegol a chyd-destun: ailgylchu pren

**Deilliant 15: gweithlu ffyniannus gyda sgiliau yn y sector coedwigoedd a choetiroedd a all addasu i newid**

Dangosydd 15a: nifer gweithwyr yn y sector coedwigoedd – wrthi'n cael ei ddatblygu

Dangosydd 15b: sgiliau a galluedd y sector – wrthi'n cael ei ddatblygu

Data ychwanegol a chyd-destun: damweiniau yn y  sector coedwigoedd

## Tueddiadau

Mae tueddiadau wedi eu gweithio allan ar gyfer y dangosyddion gan ddefnyddio’r meini prawf a osodir allan yn nhabl 1.

**Tabl 1: disgrifiad o ddadansoddiad tueddiadau ar gyfer dangosyddion Coetiroedd i Gymru**

| Categori | Symbol | Trothwy |
|---|---|---|
| Gwella | ↑ | >3% newid positif ers dangosyddion CiG diwethaf |
| Sefydlog (*h.y.,* fawr ddim neu ddim newid yn gyffredinol) | **=** | ≤3% newid ers dangosyddion CiG diwethaf |
| Dirywio | ↓ | >3% newid negyddol ers dangosyddion CiG diwethaf |
| Heb ei asesu am nad oedd digon o ddata i gymharu | **D/G** | Ddim yn gymwys |

Lle mae data priodol ar gael, cymerir y pwynt data mwyaf diweddar â’r gwerth o’r adroddiad dangosyddion CiG diwethaf (neu ddata o’r cyfnod hwnnw o amser lle nad adroddwyd am hyn o’r blaen), wedi ei lyfnhau gan ddefnyddio cyfartaledd 3-blynedd. Er enghraifft, byddai pwynt data o 2025 yn cael ei gymharu â’r cyfartaledd 3-blynedd o amgylch 2018 (2017, 2018 a 2019). Diben hyn yw lleihau effaith debygol anghysonderau blynyddol unigol.

Mae dangosyddion pennod 4 a’r tueddiadau cysylltiedig ers yr adroddiad diwethaf am y dangosyddion i’w gweld yn nhabl 2.

**Tabl 2: tueddiadau ar gyfer dangosyddion Coetiroedd i Gymru**

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| 12a: Cynhyrchu pren caled | = |
| 12a: Cynhyrchu pren meddal | = |
| 12a: Cyfanswm pren a gynhyrchir | = |
| 12b: Rhagolwg am argaeledd pren meddal | ↓ |
| 12b: Rhagolwg am argaeledd pren caled | ↓ |
| 13a: Gwerth Gros Ychwanegol y sector coedwigaeth | ↑ |
| 13b: Cyfrifon busnes yn y sector coedwigaeth | ↑ |
| 14: Defnyddio pren mewn adeiladwaith | Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu felly ni ellir adrodd am duedd. |
| 15a: Nifer gweithwyr yn y sector coedwigoedd | Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu felly ni ellir adrodd am duedd. |
| 15b: Sgiliau a galluedd y sector | Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu felly ni ellir adrodd am duedd. |

# Deilliant 12: mwy o bren yn cael ei dyfu, ei brosesu a’i ddefnyddio yng Nghymru


Ymdrinnir â’r deilliant hwn gan 2 ddangosydd: cynhyrchu pren a rhagolygon argaeledd pren. Mae data ychwanegol am gymarebau cynaeafu/argaeledd, a mewnforion, allforion a defnydd ymddangosiadol hefyd wedi eu cynnwys yma.

## Dangosydd 12a: cynhyrchu pren

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| Cynhyrchu pren meddal | = |
| Cynhyrchu pren meddal | = |
| Cyfanswm pren a gynhyrchir | = |

Er mwyn gofalu bod mwy o bren yn cael ei dyfu, ei brosesu a’i ddefnyddio yng Nghymru, rhaid i swm y pren a gynhyrchir yng Nghymru gynyddu. Dengys Ffigwr 1 gynhyrchu pren (y cyfeirir ato fel hefyd fel symud ymaith) yng Nghymru rhwng 1976 a 2024. Mae’r siart hon yn dangos fod llawer mwy o bren meddal nac o bren caled yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru, a bod y cynhyrchu yn gyffredinol wedi cynyddu’n fras dros y cyfnod hwn. Ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG, ni fu dim neu fawr ddim newid yn y cynhyrchu.

**Ffigwr 1: cynhyrchu pren, Cymru, 1976-2024**




Disgrifiad o ffigwr 1: Siart bar a bentyrrwyd yn dangos cyfanswm y cynhyrchu pren, wedi'i hollti rhwng cynhyrchu pren meddal a phren caled. Pren meddal sydd i gyfrif am y rhan fwyaf o'r cynhyrchu. Y duedd gyffredinol a ddangosir yw cynnydd mewn cynhyrchu pren.

Ffynhonnell: [Ymchwil Coedwigaeth - cyfres amser, 2025.]


## Dangosydd 12b: rhagolygon am argaeledd pren

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| Rhagolwg argaeledd pren meddal | ↓ |
| Rhagolwg argaeledd pren meddal caled | ↓ |

Mae cynhyrchu pren yn dibynnu ar gyfraddau plannu'r gorffennol. Y cylchdro nodweddiadol (o sefydlu i gwympo) yn y DU ar gyfer y rhywogaeth pren meddal a dyfir amlaf, sef pyrwydden Sitka, yw rhwng 40 a 50 mlynedd. Mae'n bwysig felly fod argaeledd pren yn y dyfodol yn cael ei ystyried. Mae Ymchwil Coedwigaeth yn cyhoeddi rhagolygon argaeledd pren meddal a phren caled. Dangosir canlyniadau'r rhagolygon argaeledd pren 50 mlynedd mwyaf diweddar yn Ffigur 2 a Ffigur 3. Disgwylir i argaeledd pren meddal yng Nghymru, sy'n addas ar gyfer cynhyrchu, ddisgyn yn y 50 mlynedd nesaf. Mae argaeledd pren caled yn debygol o gynyddu yn y 25 mlynedd nesaf, cyn dechrau gostwng. Mae hyn yn pwysleisio ymhellach yr angen i gynyddu cyfraddau plannu ledled Cymru er mwyn sicrhau y bydd digon o bren a dyfir gartref i ddiwallu anghenion y dyfodol.

Rhaid nodi mai rhagfynegiadau yw'r rhagolygon argaeledd pren a gyhoeddir, ac y gallant gael eu heffeithio gan unrhyw nifer o ffactorau amgylcheddol, marchnadol, technolegol, cymdeithasol ac eraill.

**Ffigwr 2: rhagolwg argaeledd pren meddal 50-mlynedd, Cymru, 2027 i 2076**





Disgrifiad o ffigwr 2: Siart bar gyda 2 gyfres, ystad goedwig gyhoeddus a'r sector preifat. Y duedd gyffredinol yw gostyngiad yn argaeledd pren meddal.

Ffynhonnell: [Ymchwil Coedwigaeth argaeledd pren meddal 50-mlynedd, 2026.]()

[noder 1] Miloedd o fetrau ciwbig o foncyffion fydd yn sefyll.

**Ffigwr 3: rhagolwg argaeledd pren caled 50-mlynedd, Cymru, 2013 i 2061**




Disgrifiad o ffigwr 3: siart llinell yn dangos 3 llinell – argaeledd pren caled cyhoeddus, preifat a'r cyfanswm. Mae argaeledd preifat yn uwch nag yn y sector cyhoeddus a disgwylir i hyn gynyddu rhwng 2013 a 2046, cyn disgyn hyd at 2061. Mae cyfanswm yr argaeledd yn dilyn tuedd debyg.

Ffynhonnell: Ymchwil Coedwigaeth, argaeledd pren caled 50-mlynedd, 2014.


[noder 1] Miloedd o fetrau ciwbig o foncyffion fydd yn sefyll.

## Data ychwanegol a chyd-destun

### Cymarebau cynaeafu/argaeledd

Dengys Ffigwr 4 swm y pren meddal a’r pren caled a gynaeafwyd (cynhyrchu) yn erbyn yr argaeledd a ragwelwyd. Amcangyfrif yw argaeledd pren, a gymerir o’r rhagolygon argaeledd a grybwyllwyd eisoes. Dengys Tabl 3 y cymarebau cynaeafu/argaeledd am yr un data. Dyma’r ganran o bren yr amcangyfrifir sydd ar gael ac a gynaeafir bob blwyddyn. Yr ystod cynaeafu a argymhellir yw 77% i 98% ac, ers 2012, mae cymarebau cynaeafu pren meddal wedi bod yn fyr o’r argymhelliad hwn. Dylid nodi fod rhagolygon manwl am argaeledd pren caled ar gael o 2013 yn unig, felly dim ond data o’r amser hwn a gynhwysir.

**Ffigwr 4: argaeledd pren  vs cynhyrchu, Cymru, 2000-2024**




Disgrifiad o ffigwr 4: siart bar a llinell gyfun. Dengys y bariau argaeledd pren meddal a chaled, a dengys y llinellau y cynhyrchu. Mae argaeledd a chynhyrchu pren meddal yn dangos tueddiadau tebyg ar gyfer pren caled a phren meddal. Mae cynhyrchu ac argaeledd pren meddal yn uwch o lawer na chynhyrchu ac argaeledd pren caled.

Ffynhonnell: Ymchwil Coedwigaeth, 2026.

### Tabl 3: cymarebau cynaeafu/argaeledd

| Blwyddyn | Pren meddal (%) | Pren caled (%) |
|---|---|---|
| 1997 | 81.54% | |
| 1998 | 76.21% | |
| 1999 | 82.48% | |
| 2000 | 77.43% | |
| 2001 | 83.20% | |
| 2002 | 78.80% | |
| 2003 | 75.18% | |
| 2004 | 69.30% | |
| 2005 | 60.70% | |
| 2006 | 60.57% | |
| 2007 | 66.30% | |
| 2008 | 61.02% | |
| 2009 | 71.24% | |
| 2010 | 73.51% | |
| 2011 | 81.67% | |
| 2012 | 72.77% | |
| 2013 | 69.99% | 75.00% |
| 2014 | 73.63% | 75.00% |
| 2015 | 69.49% | 78.13% |
| 2016 | 71.66% | 81.25% |
| 2017 | 65.85% | 56.90% |
| 2018 | 66.40% | 63.79% |
| 2019 | 50.82% | 67.24% |
| 2020 | 58.69% | 63.79% |
| 2021 | 62.67% | 62.07% |
| 2022 | 52.77% | 39.36% |
| 2023 | 54.65% | 38.30% |
| 2024 | 57.66% | 38.30% |

Ffynhonnell: Ymchwil Coedwigaeth, 2026.

**Mewnforion, allforion, a defnydd ymddangosiadol**

Deilliant a ddymunir o'r strategaeth yw defnyddio mwy o bren a dyfir yn y wlad hon. Ar hyn o bryd, daw llawer o'r pren a ddefnyddir yn y DU o allforion. Nid oes data am fewnforion ac allforion pren ar gael ar lefel is na'r DU gyfan. Mae hyn oherwydd heriau o ran gwahanu tynged pren Cymreig oddi wrth bren yn y DU. Yn Nhabl 4 mae ffigyrau ar gyfer y DU, heb eu torri i lawr fesul cenedl. Dengys Ffigwr 5 ganran y defnydd ymddangosiadol ddaw o bren a fewnforiwyd i'r DU. Fel y gellir gweld, cwympo y mae'r ganran hon. Tuedd bositif yw hyn gan mai un o'r deilliannau a ddymunir o'r strategaeth CiG yw defnyddio mwy o bren o'r wlad hon. Mae angen mwy o waith i bennu beth yw'r tueddiadau ar gyfer Cymru o ran y defnydd o bren o fewnforion a phren a gynhyrchir yma.

**Tabl 4: cynhyrchu, mewnforion, allforion a defnydd ymddangosiadol, DU, 1994-2024**


Uned: Miliwn metrau ciwbig o danrisgl Cyfatebol i Ddeunydd Crai Pren (CDdCP).

| Blwyddyn | Cynhyrchu yn y DU | Mewnforion | Allforion | Defnydd Ymddangosiadol |
|---|---|---|---|---|
| 1994 | 7.9 | 47.1 | 4.6 | 50.4 |
| 1995 | 8.1 | 43.6 | 5.2 | 46.5 |
| 1996 | 7.4 | 44.9 | 4.5 | 47.8 |
| 1997 | 7.8 | 47.5 | 5.5 | 49.8 |
| 1998 | 7.5 | 46.6 | 5.8 | 48.4 |
| 1999 | 7.7 | 45.6 | 6.0 | 47.3 |
| 2000 | 7.8 | 47.4 | 5.8 | 49.5 |
| 2001 | 7.9 | 49.4 | 5.9 | 51.4 |
| 2002 | 7.8 | 48.5 | 5.8 | 50.4 |
| 2003 | 8.1 | 49.0 | 7.1 | 50.0 |
| 2004 | 8.3 | 53.2 | 7.5 | 54.0 |
| 2005 | 8.5 | 51.2 | 5.8 | 54.0 |
| 2006 | 8.4 | 53.6 | 5.9 | 56.1 |
| 2007 | 9.0 | 54.5 | 6.8 | 56.7 |
| 2008 | 8.4 | 46.3 | 5.3 | 49.4 |
| 2009 | 8.6 | 39.5 | 4.2 | 44.0 |
| 2010 | 9.6 | 41.6 | 5.5 | 45.8 |

| Blwyddyn | Cynhyrchu yn y DU | Mewnforion | Allforion | Defnydd Ymddangosiadol |
|---|---|---|---|---|
| 2011 | 10.0 | 40.6 | 5.2 | 45.5 |
| 2012 | 10.1 | 39.6 | 6.5 | 43.2 |
| 2013 | 10.8 | 42.2 | 6.2 | 46.8 |
| 2014 | 11.2 | 47.0 | 4.8 | 53.4 |
| 2015 | 10.6 | 49.3 | 4.1 | 55.8 |
| 2016 | 10.8 | 49.6 | 3.8 | 56.5 |
| 2017 | 10.9 | 50.3 | 4.2 | 57.0 |
| 2018 | 11.2 | 49.1 | 3.9 | 56.4 |
| 2019 | 10.8 | 48.4 | 4.0 | 55.2 |
| 2020 | 10.5 | 48.0 | 3.6 | 54.8 |
| 2021 | 10.9 | 46.9 | 4.7 | 53.1 |
| 2022 | 9.8 | 43.1 | 4.5 | 48.3 |
| 2023 | 9.5 | 37.4 | 4.5 | 42.5 |
| 2024 | 10.1 | 42.5 | 4.0 | 48.5 |

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth, pennod 3: Masnach, Ymchwil Coedwigaeth, 2025.

**Ffigwr 5: canran defnydd ymddangosiadol pren o fewnforion, DU, 1994-2024**




Disgrifiad o ffigwr 5: siart llinell yn dangos un llinell tueddiad. Mae canran y defnydd ymddangosiadol o bren yn y DU o fewnforion wedi disgyn yn gyffredinol ers 1994, ond erys yn uchel ar oddeutu 88%.

Ffynhonnell: [Ystadegau Coedwigaeth, pennod 3: Masnach, Ymchwil Coedwigaeth, 2025.]

## Deilliant 13: y sector coedwigoedd yn parhau yn gystadleuol a chynaliadwy, gan gefnogi economi Cymru

Asesir y deilliant hwn gan 2 ddangosydd: gwerth gros ychwanegol (GVA) y sector coedwigaeth a chyfrifon busnes.

### Dangosydd 13a: gwerth gros ychwanegol y sector coedwigaeth

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| Gwerth Gros Ychwanegol y sector coedwigaeth | ↑ |


Mae gwerth gros ychwanegol (GVA) yn fesur o gyfraniad pob cynhyrchydd, diwydiant neu sector, i'r economi. Dyma'r gwahaniaeth rhwng gwerth allbynnau a gwerth defnyddio canolraddol, felly yr hyn ydyw yn bennaf yw costau cyflogaeth ac elw. Mae felly yn ffordd fuddiol o fesur cyfraniad y sector coedwigoedd i economi Cymru.

Mae'r arolwg busnes blynyddol (ABB) a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol (SYG) yn cynnwys ystadegau am werth gros ychwanegol ar gyfer gwahanol ddiwydiannau, wedi'u dosbarthu yn ôl Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU (SIC 2007) . Y 3 chod SIC mwyaf perthnasol a gynhwysir yn y data hyn yw SIC 02: coedwigaeth a logio, SIC 16: gweithgynhyrchu cynhyrchion pren, ac eithrio am ddodrefn, a SIC 17: gweithgynhyrchu cynhyrchion papur. Dylid nodi fod planhigfeydd coedwigoedd wedi eu cynnwys yn SIC 02; fodd bynnag, cynhwysir rhai planhigfeydd coed yn SIC 01.30: lledaenu planhigion. Dylid nodi na fydd pob busnes sy'n gweithredu yn y sector coedwigoedd yn dod dan y codau SIC hyn. Er enghraifft, ni wneir cyfrif yma am hamdden a thwristiaeth sy'n gysylltiedig â choetiroedd, er yr ymdrinnir â gwerth hyn ym mhennod 1, deilliant 4.

Dengys Ffigwr 6 GVA gwahanol rannau o'r sector coedwigaeth yng Nghymru wedi'i normaleiddio gyda 1998 fel y flwyddyn sylfaen. Fel y gellir gweld, cynyddu wnaeth GVA ar draws y cyfnod hwn, gyda'r twf mwyaf i'w weld yn y sector coedwigaeth a

logio. Ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG,  mae'r duedd  mewn GVA ar draws dosbarthiadau diwydiant yn cynyddu. Dengys Ffigwr 7 GVA Cymru wedi ei normaleiddio o gymharu â'r DU. Awgryma hyn fod y cynnydd mewn GVA yng Nghymru wedi dilyn tuedd debyg i'r DU gyfan.


**Ffigwr 6: Gwerth Gros Ychwanegol gan y sector coedwigoedd yng Nghymru (1998 = 1.0)**




Disgrifiad o ffigwr 6: siart llinell yn dangos 3 llinell tuedd am GVA yn y sector coedwigoedd, un am bob un o'r 3 chategori SIC o ddiddordeb. Dengys y 3 gynnydd dros y cyfnod o amser (1998-2023).

Ffynhonnell: [Gwerth gros ychwanegol rhanbarthol (cydbwyswyd)  fesul diwydiant: pob rhanbarth ITL – Swyddfa Ystadegau Genedlaethol](), 2026.

**Ffigwr 7: Gwerth Gros Ychwanegol gan y sector coedwigoedd yng Nghymru o gymharu â'r DU (1998 = 1.0)**




Disgrifiad o ffigwr 7: siart llinell yn dangos 2 linell tueddiadau wedi'i normaleiddio am GVA y sector coedwigoedd ar gyfer y DU a Chymru. Mae'r llinellau yn dilyn tuedd gyffelyb o gynnydd rhwng 1998 a 2023.


Ffynhonnell: Gwerth gros ychwanegol rhanbarthol (cydbwyswyd) fesul diwydiant: pob rhanbarth ITL – Swyddfa Ystadegau Genedlaethol, 2026.

## Dangosydd 13b: cyfrifon busnes yn y sector coedwigaeth

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
| --- | --- |
| Cyfrifon busnes yn y sector coedwigaeth | ↑ |

Dengys Ffigwr 8 gyfrifon busnes yng Nghymru yn ôl categori SIC. Cynyddu wnaeth cyfanswm nifer y busnesau oedd yn gweithredu yn y diwydiannau pren a choedwigaeth ers 2010; yr amlycaf yma yw cynnydd yn nifer y busnesau yn y diwydiant coedwigaeth a logio (SIC 02). Bu gostyngiad yn nifer y busnesau oedd yn gweithredu yn y sector gweithgynhyrchu papur a chynhyrchion papur. Ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG, cynyddu wnaeth nifer y busnesau sy’n gweithredu yn y sector yn ei gyfanrwydd.

**Ffigwr 8: cyfrifon busnes fesul diwydiant, Cymru, 2010-2025**




Disgrifiad o ffigwr 8: siart bar a bentyrrwyd yn dangos cyfrifon busnes gyda'r bariau wedi'u hollti i'r 3 chategori diddordeb SIC. Mae cyfrifon busnes yn gyffredinol wedi cynyddu dros y cyfnod o amser. Gweithgynhyrchu cynhyrchion pren (SIC 16) sy'n cynrychioli'r gyfran fwyaf o fusnesau.

Ffynhonnell: Cyfrifon busnes y DU, Swyddfa Ystadegau Genedlaethol, o Nomis ar 26 Ebrill 2026. .

## Deilliant 14: mwy o ddefnydd o bren fel adnodd adnewyddadwy allweddol


Asesir y deilliant hwn gan un dangosydd: defnydd o bren mewn adeiladwaith (wrthi'n cael ei ddatblygu). Cynhwysir hefyd beth data ychwanegol am ailgylchu pren.

### Dangosydd 14: defnyddio pren mewn adeiladwaith - wrthi'n cael ei ddatblygu

Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG: mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu, felly ni adroddir am unrhyw duedd yma.

Mae defnyddio pren mewn cynhyrchion sy'n para am hir megis mewn adeiladwaith neu ddodrefn yn sicrhau bod y carbon a storiwyd tra'r oedd y pren yn tyfu yn cael ei gadw yn y tymor hir. Mae angen defnyddio mwy o bren mewn adeiladwaith yng Nghymru, fel yr amlygir yn Y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren: Datblygu'r diwydiant pren. Rhestrir y dangosydd hwn fel un sydd wrthi'n cael ei ddatblygu gan ei bod yn anodd cael ffynhonnell glir, ailadroddadwy a dibynadwy o ddata am swm y pren Cymreig a ddefnyddir yng Nghymru. Dengys Ffigwr 9 amcangyfrif o lif pren Cymreig yn 2023, a gynhyrchwyd gan FR. Dim ond cyfran fechan o bren a dyfir yng Nghymru sy'n mynd yn syth i bren strwythurol ar gyfer adeiladu yng Nghymru (11 mil tunnell werdd, neu 0.94% o'r holl bren meddal a gwympir). Fodd bynnag, mae'n debygol fod cynhyrchion pren eraill a ddefnyddir mewn adeiladwaith, megis bwrdd ffibr dwysedd canolig (MDF), bwrdd gronyn (sglodfwrdd), neu fwrdd cainc cyfeiriedig (OSB), yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru o bren Cymreig neu bren a ailgylchwyd.

**Ffigwr 9: diagram Sankey yn crynhoi llif y pren a gynhyrchwyd yng Nghymru, 2023**




Disgrifiad o ffigwr 9: Siart Sankey yn dangos llif y coed yng Nghymru. Mae'r mewnbynnau wedi eu hollti yn goedwigoedd cyhoeddus a phreifat (cyfanswm a gwympwyd). Mae'r diagram yn amlygu'r gyfran fechan (< 1%) o'r hyn a gwympwyd sy'n mynd yn uniongyrchol i adeiladwaith.


Ffynhonnell: Ymchwil Coedwigaeth, 2025. Unedau: miloedd tunelli gwyrdd.

## Data ychwanegol a chyd-destun

### Ailgylchu pren

Mae modd ailgylchu gwastraff pren yn gynhyrchion newydd gwerthfawr, sy'n aml yn werth mwy na'r cynnyrch gwreiddiol. Gall hyn gynnwys byrddau panel, biomas, deunydd gwely i anifeiliaid, arwynebeddau tirweddu, a mwy. Mae ailgylchu yn un agwedd bwysig o'r symudiad tuag at ddiwydiant pren mwy cynaliadwy a chylchol yng Nghymru. Dengys Ffigwr 10 faint y pren a ailgylchir ledled y DU. Mae Cymru yn ailgylchu mwy o bren na chenhedloedd eraill Prydain Fawr. Fodd bynnag, mae dilysu ychwanegol a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi bod cyfran y pren a adroddwyd fel un a ailgylchwyd neu a ailddefnyddiwyd yn debygol o fod wedi'i gorbwysleisio yn y blynyddoedd diweddar. Gall defnyddwyr barhau i gyfeirio at y tueddiadau ailgylchu cyffredinol a chymharu rhwng blynyddoedd, ond dylid nodi bod y gyfradd ailgylchu benodol yn debygol o fod yn is na'r hyn a gyhoeddwyd. Mae dros 65% o ailgylchu pren yng Nghymru yn digwydd yn Kronospan Ltd, Y Waun, lle'r ailgylchwyd cyfanswm o 35,213 tunnell o bren yn blwyddyn ariannol 2024 i 25.

**Ffigwr 10: ailgylchu pren DU, fesul cenedl, 2019-2025**




Disgrifiad o ffigwr 10: siart llinell gyda 3 llinell yn cynrychioli ailgylchu pren fesul tunnell yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae Cymru yn ailgylchu mwy na'r cenhedloedd eraill, ac y mae hyn yn cynyddu.

Ffynhonnell: Data Ailgylchu ar gyfer Pren | Fy Ailgylchu Cymru

# Deilliant 15: gweithlu ffyniannus gyda sgiliau yn y sector coedwigoedd a choetiroedd a all addasu i newid


Asesir y deilliant hwn gan 2 ddangosydd: Nifer gweithwyr yn y sector coedwigoedd a sgiliau a galluedd y sector (wrthi'n cael ei ddatblygu). Cynhwysir data ychwanegol am ddamweiniau yn y sector coedwigoedd yma hefyd.

## Dangosydd 15a: nifer gweithwyr yn y sector coedwigoedd – wrthi'n cael ei ddatblygu

Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG: mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu, felly ni adroddir am unrhyw duedd yma.

Dengys Ffigwr 11 niferoedd gweithwyr yn y sector coedwigoedd, yn ôl categori Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC), a gymerir o'r Gofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth (BRES, SYG). Gwelir fod cynhyrchu papur a phren â lefelau uwch o gyflogaeth yn y sector coedwigoedd na choedwigaeth a logio. Mae holl ddata BRES sydd ar gael i'r cyhoedd wedi eu talgrynnu er mwyn sicrhau eu bod yn ddienw. Mae anghysonderau go fawr yn y niferoedd a ddangosir ar gyfer Cymru; er enghraifft, mae amrywiadau yn y gyflogaeth mewn coedwigaeth a logio yn 2016 a 2021, ac yn niferoedd y gweithwyr mewn gweithgynhyrchu papur a chynhyrchion papur yn 2017 a 2018, ac nid oes esboniad ar yr un o'r rhain. Efallai y gellir priodoli'r afreoleidd-dra hyn i nifer fechan y gweithwyr ar hyd a lled Cymru, a bod y manylion wedi mynd ar goll oherwydd talgrynnu. Oherwydd yr anghysonderau hyn mewn data, mae'r dangosydd hwn ar hyn o bryd wrthi'n cael ei ddatblygu. Dylid nodi hefyd nad yw'r holl gyflogaeth yn y sector coedwigaeth wedi ei ddal dan y codau SIC hyn, ac efallai na ddelir rhai mentrau a mathau o waith.

**Ffigwr 11: gweithwyr yn y sector coedwigoedd fesul diwydiant, Cymru, 2015-2024**




Disgrifiad o ffigwr 11: siart bar a bentyrrwyd yn dangos nifer y gweithwyr ar draws y sector coedwigoedd. Holltir bariau yn ôl cod SIC. Ni ellir deillio tueddiadau clir. Coedwigaeth a logio sy’n gyson yn cyfrif am lai o gyflogaeth na’r 2 gategori arall a ystyriwyd (gweithgynhyrchu cynhyrchion pren a gweithgynhyrchu cynhyrchion papur).

Ffynhonnell: [Cofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth (BRES), SYG, o Nomis ar 26 Ebrill 2026](#).

## Dangosydd 15b: sgiliau a galluedd y sector – wrthi'n cael ei ddatblygu

Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG: mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu, felly ni adroddir am unrhyw duedd yma.

Cynhwysir peth data yma i roi darlun o sgiliau a'r galw am lafur yng Nghymru; fodd bynnag, rhestrir y dangosydd hwn fel un sydd 'wrthi'n cael ei ddatblygu' gan mai adroddiadau unwaith-am-byth yw'r ffynonellau data hyn ac nad ydynt felly yn ddangosydd ailadroddadwy ar gyfer y deilliant hwn. Y gobaith yw, yn dilyn camau o'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren, a mentrau eraill Llywodraeth Cymru, y bydd data cliriach ynghylch sgiliau, addysg a chyrhaeddiad yn y sector coedwigaeth ar gael yn y dyfodol.

Yn 2021, rhyddhaodd y Fforwm Sgiliau Coedwigaeth ei adroddiad terfynol ar Ymchwil i'r Gweithlu Coedwigaeth. Fel rhan o'r ymchwil hwn, edrychwyd i mewn i'r rhagfynegiadau am y galw am lafur yn y diwydiant pren. Dengys Tabl 5 y dadansoddiad o'r rhagfynegiad am y galw am lafur yn y sector coedwigaeth, wedi ei wahanu yn ôl is-sector: Cynaeafu, Ail-stocio a Chreu Coetiroedd Newydd, ac yn ôl rôl: Gweithiwr Coedwig, Goruchwyliwr Coedwigaeth a Choediwr Proffesiynol. Cymerir y teitlau hyn o Fapiau Galwedigaethol y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol ac fe'u haddaswyd ar gyfer datblygiad addysg dechnegol yn Lloegr. Defnyddir yr un termau yn y data Cymreig i ganiatáu cymharu; fodd bynnag, gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng Goruchwyliwr Coedwigaeth a Choediwr Proffesiynol. Mae'r astudiaeth gan y Fforwm Sgiliau Coedwigaeth yn amlygu cynnydd cyffredinol disgwyliedig yn y galw am weithwyr coedwigaeth proffesiynol yng Nghymru tan 2030.

**Tabl 5: rhagamcan o’r galw am lafur yn y sector coedwigoedd, Cymru, 2019-2030**


| Is-sector | Rôl | 2019 | 2025 | 2030 | % +/- i 2025 | % +/- i 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynaeafu | Gweithiwr Coedwig | 224 | 225 | 180 | 0 | -19 |
| Cynaeafu | Goruchwyliwr Coedwigaeth | 26 | 26 | 21 | 0 | -19 |
| Cynaeafu | Coediwr Proffesiynol | 13 | 13 | 10 | 0 | -19 |
| Cynaeafu | CYFANSWM | 262 | 263 | 211 | 0 | -19 |
| Ail-stocio | Gweithiwr Coedwig | 47 | 47 | 38 | 0 | -19 |
| Ail-stocio | Goruchwyliwr Coedwigaeth | 7 | 7 | 6 | 0 | -19 |
| Ail-stocio | Coediwr Proffesiynol | 3 | 3 | 2 | 0 | -19 |
| Ail-stocio | CYFANSWM | 57 | 57 | 46 | 0 | -19 |
| Creu Coetiroedd Newydd | Gweithiwr Coedwig | 3 | 159 | 159 | n/a | n/a |
| Creu Coetiroedd Newydd | Goruchwyliwr Coedwigaeth | 0 | 24 | 24 | n/a | n/a |
| Creu Coetiroedd Newydd | Coediwr Proffesiynol | 0 | 20 | 20 | n/a | n/a |
| Creu Coetiroedd Newydd | CYFANSWM | 3 | 203 | 203 | n/a | n/a |
| Cyfanswm | Gweithiwr Coedwig | 273 | 431 | 377 | 58 | 38 |
| Cyfanswm | Goruchwyliwr Coedwigaeth | 33 | 57 | 50 | 72 | 52 |
| Cyfanswm | Coediwr Proffesiynol | 16 | 36 | 32 | 125 | 105 |
| Cyfanswm | CYFANSWM | 322 | 523 | 460 | 62 | 43 |

Ffynhonnell: Fforwm Sgiliau Coedwigaeth, 2021.

Yn 2017, rhyddhaodd y Fforwm Sgiliau Coedwigaeth astudiaeth sgiliau coedwigaeth ar gyfer Cymru a Lloegr. Nid yw’r adroddiad hwn yn gwahanu data am Gymru yn benodol. Dengys Ffigwr 12 nifer y myfyrwyr ar draws Cymru a Lloegr yn ôl math o radd a blwyddyn academaidd mewn disgyblaethau coedwigaeth a

choedyddiaeth. Gostyngodd cyfanswm nifer y myfyrwyr yn y cyfnod rhwng 2007/08 a 2015/16.

**Ffigwr 12: myfyrwyr addysg uwch coedwigaeth a choedyddiaeth yn ôl math o radd a blwyddyn academaidd, Cymru a Lloegr, 2007-2016**




Disgrifiad o ffigwr 12: siart llinell gyda llinellau lluosog yn cynrychioli'r gwahanol fathau o radd mewn coedwigaeth ac amaethyddiaeth. Y duedd am yr addysg yn ei gyfanrwydd yw ei fod wedi disgyn ers 2008/09.


Ffynhonnell: Fforwm Sgiliau Coedwigaeth, 2017.

## Data ychwanegol a chyd-destun

### Damweiniau yn y sector coedwigoedd

Mae gweithlu ffyniannus yn weithlu diogel. Mae’n bwysig felly fod nifer y damweiniau yn y diwydiannau pren a choedwigaeth yn gostwng. Dengys Ffigwr 13 gyfanswm y damweiniau yr adroddwyd amdanynt am bob 1,000 o weithwyr fesul diwydiant rhwng 2004 a 2023. Data am Brydain Fawr yw’r rhain, a gymerwyd o Ystadegau Coedwigaeth 2025, a gynhyrchwyd gan Ymchwil Coedwigaeth. Mae cyfanswm nifer y damweiniau yr adroddwyd amdanynt wedi gostwng yn yr holl ddiwydiannau a gynhwyswyd dros y cyfnod o amser a ddangosir.

**Ffigwr 13: cyfanswm nifer y damweiniau yr adroddwyd amdanynt am bob 1,000 o weithwyr, fesul diwydiant, Prydain Fawr, 2004/05 i 2023/24 [noder 1]**




Disgrifiad o ffigwr 13: siart llinell yn dangos 5 llinell tueddiad am nifer y damweiniau am bob 1000 o weithwyr ar gyfer gwahanol ddiwydiannau (coedwigaeth, cynnyrch pren, gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth a phapur). Mae pob llinell tueddiad yn gostwng.

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth, Ymchwil Coedwigaeth, 2025.

[Noder 1] ffigwr diwygiedig 2022/23, ffigwr dros dro 2023/24.